TEMPLED DATGANIAD I'R WASG I AWDURDODAU LLEOL

Datganiad i'r wasg

Mae 6.3 miliwn o fêps a podiau yn cael eu taflu i ffwrdd yr wythnos er gwaethaf y gwaharddiad fêps untro

- Dywed awdurdod lleol XXX fod fêps yn dal i achosi problemau mawr yn ardal X gyda thanau rheolaidd mewn lorïau sbwriel a chanolfannau gwastraff.
- Mae 1.18 biliwn o fêps wedi'u taflu dros y 4 blynedd diwethaf
- Gallai nifer y fêps sy'n cael eu taflu i ffwrdd y flwyddyn fod yn pweru bron i 5,000 o gerbydau trydan
- Mae cwmnïau gwastraff ac ailgylchu yn dweud bod fêps yn dal i achosi heriau sylweddol gyda symiau mawr o fêps yn mynd i mewn i'r system wastraff, ac yn delio â thanau rheolaidd mewn lorïau sbwriel a chanolfannau gwastraff

Mae'r ymchwil ddiweddaraf gan Material Focus wedi canfod bod nifer y fêps sy'n cael eu taflu neu eu hailgylchu'n anghywir yn parhau i fod yn uchel gyda dros 6.3 miliwn o fêps a pods yn cael eu taflu bob wythnos er gwaethaf y gwaharddiad gwerthu fêp untro a ddaeth i rym yn y DU ar 1 Mehefin 2025. Mae hyn yn ostyngiad o 23% o'i gymharu â'r llynedd, sy'n dangos bod y gwaharddiad wedi cael effaith ar leihau nifer y fêps sy'n cael eu taflu. Mae colli deunyddiau gwerthfawr fel lithiwm a chopr, a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar gwmnïau gwastraff yn ardal XXX gyda thanau mewn lorïau sbwriel a chanolfannau gwastraff ac ailgylchu yn parhau i achosi problemau mawr.

Mae Material Focus wedi lansio ei bedwerydd adroddiad Vape Research sy'n dadansoddi nifer y fêps a brynwyd a'u taflu. Mae'r ymchwil, a gynhaliwyd gan Opinium, yn asesu'r effaith y mae'r gwaharddiad gwerthu fêp untro wedi'i chael ar ymddygiadau prynu a gwaredu.

Mae'r vapocalypse yn parhau - fêps yw un o'r cynhyrchion defnyddwyr mwyaf gwastraffus, niweidiol a pheryglus a werthwyd erioed. Mae fêps yn cael eu pweru gan batris lithiwm-ion, a gall gael eu malu neu eu difrodi a sbarduno tanau peryglus mewn lorïau sbwriel a chanolfannau gwastraff ac ailgylchu. Mae ardal

XXX wedi cael XXX o danau mewn lorïau sbwriel a chanolfannau gwastraff ac ailgylchu y credir eu bod wedi'u hachosi gan fêps wedi'u gwaredu'n anghywir.

Yn ogystal, derbyniodd Material Focus wybodaeth gan ddau o'r cwmnïau gwastraff ac ailgylchu mwyaf yn y DU sydd wedi adrodd eu bod yn dal i brofi heriau sylweddol oherwydd nifer uchel o wastraff fêp yn y system. Mae Veolia yn parhau i brofi tân y dydd yn eu cerbydau ac yn eu canolfannau gwastraff ac ailgylchu, tuedd sydd wedi parhau ers tua phedair blynedd, sydd yn debygol o gael ei achosi gan batris lithiwm a geir y tu mewn i fêps a nwyddau trydanol eraill. Ac mae Biffa yn parhau i dderbyn dros 200,000 o fêps y mis sydd wedi'u gosod yn anghywir mewn casgliadau ailgylchu cymysg.

Mae tanau sy'n cael eu hachosi gan fêps a nwyddau trydanol eraill gyda batris cudd ar gynnydd ledled y DU. Nododd ymchwil Material Focus fod nifer y tanau batri yn y llif gwastraff wedi cynyddu i dros 1,200, cynnydd o 71% o 700 yn 2022. Mae'r tanau hyn yn achosi difrod difrifol i griwiau gwastraff, y gwasanaethau tân a'r gymuned leol yn ogystal â lefelau llygredd aer mewn ardaloedd lleol, gan dorri terfynau WHO ac effeithio ar iechyd trigolion lleol. Ystyrir bod rhai o'r tanau hyn yn cael eu hachosi gan fêps.

Dywed Scott Butler, Cyfarwyddwr Gweithredol, Material Focus: "Mae'r vapocalypse yn parhau, wrth i ni weld cynnydd mewn tanau batris mewn lorïau sbwriel ac mewn canolfannau gwastraff ac ailgylchu ledled y DU. Mae'r gwaharddiad fêps untro wedi cael effaith, ond mae 6 miliwn fêps a pods yn dal i gael eu taflu yr wythnos ac mae hyn yn dal i fod yn wastraff enfawr o ddeunyddiau gwerthfawr ac yn risg tân mawr. Mae mesur tybaco a fêps newydd yn mynd rhagddo trwy'r senedd. Mae'r mesur yn cynnig y bydd angen trwydded i werthwyr fêps wneud hyn, yn debyg i'r rhai sy'n gwerthu tybaco ac alcohol. Gallai gofyn i'r adeiladau trwyddedig hyn hefyd gynnig cymryd yn ôl a chyfathrebu hyn yn glir i'w cwsmeriaid gael effaith fawr.

"Dylai fod mor hawdd ailgylchu fêp ag y mae i brynu un. Rydyn ni eisiau mwy o fêpwyr i fynnu bod y lleoedd lle maen nhw'n eu prynu hefyd yn darparu pwyntiau ailgylchu. Mae'n ddyletswydd gyfreithiol hirsefydlog i bob un o'r siopau sy'n elwa o'u gwerthu i orfod cynnig mannau gollwng ailgylchu diogel a thalu costau gwneud hynny. Dylai cynhyrchwyr a mewnforwyr fêp wedyn dalu costau ailgylchu."

Dyfyniad draft i awdurdodau lleol; "Gall fêps sy'n cael eu taflu mewn biniau gael effaith ddinistriol ar ein gwasanaethau tân lleol, ein timau gwastraff, yn ogystal â'n

cymunedau lleol. Gall y tanau gymryd oriau os nad llawer o ddyddiau i'w diffodd, gan roi ein gweithwyr rheng flaen mewn perygl, yn ogystal ag achosi lefelau llygredd aer i gynyddu. Dylid ailgylchu pob fêps, a gallwch ddod o hyd i'ch pwynt ailgylchu agosaf trwy ymweld â XXX."

Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol;

- Mae 80% o fêpwyr yn dweud nad oes digon o wybodaeth ar sut i ailgylchu.
- Byddai gallu ailgylchu eu fêp yn y siop y gwnaethon nhw eu prynu oedd y lleoliad mwyaf poblogaidd y byddai pobl yn dewis ailgylchu eu fêp - 49%.
- Taflwyd 6.3 miliwn o fêps a podiau yr wythnos o'i gymharu ag 8.2 miliwn o fêps yn 2024, gostyngiad o 23%
- Dywedodd 66% o bobl eu bod wedi taflu eu fêps
- Prynwyd 9.4 miliwn fêps gan gynnwys rhai untro, ailwefru a podiau yr wythnos

Gellir a dylid ailgylchu pob fêps - gellir adfer 80% o'r deunyddiau sydd y tu mewn i fêp.

DIWEDD

Mae Material Focus yn sefydliad nid-er-elw a'i nod yw atal y genedl rhag taflu neu gadw eu hen offer trydanol bach. Mae Material Focus yn cyflwyno'r ymgyrch Recycle Your Electricals ledled y DU. Mae'r ymgyrch yn datgelu'r gwerth sydd ynghudd mewn nwyddau trydanol ac yn ei gwneud hi'n haws i ni i gyd ailgylchu ac ailddefnyddio'r nwyddau trydanol bach nad ydym eu hangen mwyach trwy ddarparu mwy o bwyntiau ailgylchu yn ogystal â darparu gwybodaeth ymarferol ar sut y gall aelwydydd ailgylchu.

Mae'r ymgyrch yn cael ei hariannu gan gynhyrchwyr offer trydanol. Mae llywodraeth y DU yn gosod targedau blynyddol ar gyfer ailgylchu pob gwastraff trydanol, gan gynnwys offer trydanol bach. Os nad yw cynhyrchwyr offer trydanol yn cyrraedd y targed hwn, yna maent yn cyfrannu tuag at gronfa (Cronfa WEEE) sy'n talu am ystod o weithgareddau, gan gynnwys cyfathrebu, gweithgareddau newid ymddygiad, mwy o brosiectau ailgylchu ac ymchwil. Yn y pen draw, y nod yw cefnogi camau gweithredu a fydd yn helpu'r DU i gynyddu lefelau ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff trydanol.

Methodoleg Ymchwil:

Cynhaliwyd ymchwil ar-lein gan Opinium Research rhwng 29 Rhagfyr 2025 a 9 Ionawr 2026 i sampl o 1,000 o bobl 16+ oed sydd wedi prynu fêp ers 1 Mehefin 2025, mae'r canlyniadau wedi'u pwysoli i fod yn gynrychioliadol o boblogaeth y DU.

O'r sampl gynrychioliadol yn y DU o 2,00 o oedolion, roedd 345 wedi prynu fêp ers 1 Mehefin – 345/2000 = 17% o oedolion y DU, mae hyn yn 9,491,339.

Cyfrifwyd nifer y rhai sy'n prynu / taflu pob math o fêp trwy luosi'r % o'r sampl fêpwyr cyffredinol â chyfanswm nifer y fêpwyr yn y DU.